3. Ydych chi'n credu bod addoliad a bywyd eich eglwys chi yn gwneud digon i helpu'r gynulleidfa i fod yn 'aelodau byw yn eich cymuned'?
4. Pa negeseuon am yr amgylchedd a newid hinsawdd sydd gan Fadagascar i'w cynnig i ni?
5. Sut ydych chi'n deall yr anogaeth i 'fyw ein bywydau yn y ffordd Gristnogol'?

Gweithgarwch ychwanegol

1. Darllenwch y darn canlynol yn uchel a rhowch ychydig funudau i bobl feddwl amdano.

Y Comisiwn Mawr

'Dyma'r un deg un disgybl yn mynd i Galilea, i'r mynydd lle'r oedd Iesu wedi dweud wrthyn nhw am fynd. Pan welon nhw Iesu, dyma nhw'n ei addoli – ond roedd gan rai amheuon. Wedyn dyma Iesu'n mynd atyn nhw ac yn dweud, "Dw i wedi cael awdurdod llwyr i reoli popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear. Felly ewch i wneud pobl o bob gwlad yn ddisgyblion i mi, a'u bedyddio nhw fel arwydd eu bod nhw wedi dod i berthynas â'r Tad, a'r Mab a'r Ysbryd Glân. A dysgwch nhw i wneud popeth dw i wedi'i ddweud wrthoch chi. Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod." ' (Mathew 28: 16–20)

Beth mae'r darn yma yn dweud am fod yn genhadwr?

2. Meddyliwch am ddramâu, ffilmiau neu gyfresi teledu sy'n dramateiddio digwyddiadau hanesyddol. Pa rhai wnaeth argraff arnoch a pham? Oes un ohonynt wedi rhoi golwg newydd i chi ar y digwyddiad neu eich helpu i'w ddeall yn well?

3. Ceisiwch gael yr ysgol Sul neu'r ysgol leol i ymuno â'r cynllun gefeillio. Bydd y ffilm nesaf ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Undeb yn Ebrill/Mai 2020.

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Cynllun Y Ffordd

Cymru a Madagascar

Blwyddyn 3, Rhan 4
Gwanwyn 2020

Sut i ddefnyddio'r deunydd

Mae'r ffilm 'Cymru a Madagascar' yn cynnwys pum pennod sy'n amrywio o ran eu hyd. Awgrymwn eich bod yn rhannu'r gwylio fel y bo'n addas i chi. Cynhwysir hefyd nifer o gwestiynau ar gyfer pob pennod unigol, ond efallai fod yna gwestiynau eraill fydd o ddiddordeb i'r grŵp.

Pennod 1: *Madagascar a Chymru*
Pennod 2*:* *Dyfnhau'r Berthynas*
Pennod 3*:* *Cynnal y Berthynas*
Pennod 4: *Cyfoethogi'r Berthynas*
Pennod 5: *Dyfodol y Berthynas*

Ar dudalen 4 o'r daflen hon mae nifer o weithgareddau eraill i helpu llenwi'r sesiynau, ond cyn gorffen pob sesiwn byddai'n dda i'r grŵp drafod y cwestiwn:

Beth allwn ni fel eglwys ei wneud yn dilyn y drafodaeth hon?

Cwestiynau i'w trafod

Pennod 1: Madagascar a Chymru

1. Beth yw'r elfennau yn stori cenhadon Madagascar sy'n ei gwneud hi'n stori 'ryfeddol'?
2. Ydy eich eglwys chi'n gwrando digon ar angen: a) y gymuned leol; b) y byd ehangach?
3. Dwedwyd yn y ffilm fod y syniad o anturiaeth a chyffro yn ffactorau pwysig yn y genhadaeth i Fadagascar. Byddech chi'n cytuno bod y pethau hyn ar goll i raddau helaeth o fywyd eglwysi Cymru heddiw? Beth sy'n gyfrifol am hyn?
4. Pa mor effeithiol yw bywyd a gweithgarwch eich eglwys yn dod a phobl at ei gilydd?
5. Pam ydych chi'n credu bod yr eglwys ym Madagascar yn dal i dyfu?

Pennod 2: Dyfnhau'r Berthynas

1. Pam bod y cenhadon yn rhoi cymaint o bwyslais ar addysg?
2. A allwch chi feddwl am rywbeth a'ch helpodd chi i weld yr efengyl mewn ffordd wahanol? Beth fyddai'n helpu pobl Cymru i weld yr efengyl mewn ffordd wahanol heddiw?
3. Ydyn ni fel aelodau'r eglwys yn sôn digon am Iesu?
4. Ydy eich eglwys chi yn ymdrechu i uniaethu ei hun â'r gymuned o'i chwmpas? Faint o le sy'n cael ei rhoi i ddyrchafu bywyd y gymuned o fewn addoliad a gweithgarwch eich eglwys?
5. A yw'n bosibl cydweithio gyda rhai nad ydynt yn Gristnogion er mwyn gwireddu'r weledigaeth Gristnogol?

Pennod 3: Cynnal y Berthynas

1. Oes yna rhywle yr ydych chi'n cyfrif fel 'man geni eich ffydd'? Pam?

2. Mae pobl Madagascar yn dal yn falch iawn o waith y cenhadon, ond mae llawer yng Nghymru yn feirniadol ac yn amheus o genhadaeth yn gyffredinol. Sut fyddech chi'n mynd ati i argyhoeddi pobl fod gwerth o hyd mewn cenhadaeth?
3. Sut ydych chi'n deall yr alwad i fod yn 'dystion newydd yng Nghymru heddiw'?
4. Beth sy'n gyfrifol am y ffaith fod cymaint o'n heglwysi ni wedi colli'r argyhoeddiad oedd gan y cenhadon a FJKM, bod yr efengyl yn gallu newid bywydau pobl?
5. Ym mha ffordd mae eich eglwys chi wedi elwa o Apêl Madagascar?

Pennod 4: Cyfoethogi'r Berthynas

1. Fyddech chi'n dweud bod eich eglwys yn rhy gyfforddus ei byd? Sut gellir ei symud hi o'i chylchfa gysurus (comfort zone)?
2. Beth yw'r ffordd orau o adeiladu ar yr hyn digwyddodd 200 mlynedd yn ôl?
3. 'Mae cyflwyno'r hanes wedi helpu pobl i sylweddoli mai pobl go iawn oedd y cenhadon.' Oes perygl i ni weld y cenhadon fel math o *super-Christians* a cholli golwg felly ar yr hyn sydd ganddynt i'w dysgu i ni?
4. Oes digon o bwyslais ar addysgu pobl o fewn yr eglwys heddiw?
5. 'Er bod Apêl Madagascar drosodd mae anghenion pobl Madagascar yn parhau.' Beth ddylai'r Undeb ei wneud er mwyn helpu'r eglwysi i barhau i ymateb i'r anghenion hynny?

Pennod 5: Dyfodol y Berthynas

1. Beth yw'r gwersi sydd gan eglwys Madagascar i'w dysgu i'r eglwys yng Nghymru?
2. Pa mor bwysig yw sylweddoli ein bod yn rhan o'r eglwys fyd-eang?